



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Amcangyfrif ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23

---



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: [post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)
- Gwefan: [comisiynyddygyymraeg.cymru](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)

**Aled Roberts**

**Comisiynydd y Gymraeg**

**29 Hydref 2021**

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5–7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

---

# Cynnwys

---

1	Rhagair	1
2	Cynlluniau'r Amcangyfrif	2
3	Amcangyfrif gwariant refeniw a sylwadau	4
4	Dibrisiant	8
5	Buddsoddi ar Gyfalaf	9
6	Gofynion arian parod	10

# 1 Rhagair

- 1.1 Paratowyd yr Amcangyfrif hwn yn unol â gofynion statudol er mwyn sicrhau adnoddau digonol i gyflawni rhaglen waith Comisiynydd y Gymraeg yn 2022-23.
- 1.2 Gweledigaeth y Comisiynydd yw Cymru lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Mae gweledigaeth, amcanion a blaenoriaethau'r Comisiynydd am y cyfnod 2018 i 2021 i'w gweld yng Nghynllun Strategol y Comisiynydd. Bydd Cynllun Strategol newydd mewn lle ar gyfer y cyfnod o 01/04/2022 ymlaen.
- 1.3 Ym mis Rhagfyr 2020, bu ymosodiad seibr difrifol ar isadeiledd a systemau technoleg gwybodaeth y sefydliad. Mae'r cyfnod ers mis Rhagfyr 2020 wedi bod yn un tu hwnt o heriol i'r sefydliad wrth i ni ymateb i sgil effeithiau'r ymosodiad ac ar yr un pryd parhau i weithredu ein swyddogaethau a chynnig gwasanaethau i'r cyhoedd.
- 1.4 Mae profiad yr ymosodiad wedi bod yn un anodd, ond roedd y sefydliad yn y broses o weithredu'i strategaeth TG ar y pryd. Mae'r ymosodiad wedi bod yn gyfle i wireddu'r strategaeth, ond noder bod pwysau ychwanegol wrth ymateb i'r ymosodiad wedi cael traweffaith ar ein gallu i gadw at ein cynllun ac amserlen wreiddiol. Golyga hynny bod rhai o'n cynlluniau cyllido yn symud i 2022-23.
- 1.5 Yr hyn sydd wedi dod yn fwy amlwg dros y flwyddyn yw'r ffocws ar ddiogelwch seibr, nid yn unig oherwydd yr ymosodiad, ond hefyd drwy gyngor, arweiniad a mentrau gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill megis yr NSCS. Mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth a chwant y sefydliad i sicrhau lefel diogelwch addas a pharhaus.
- 1.6 Mae'r Amcangyfrif hwn wedi ei baratoi ar sail yr egwyddorion amlinellwyd yn nogfen Llywodraeth Cymru ar Alinio'r Gweithdrefnau Cyllidebu Cyfunol ar gyfer cyrff llywodraeth ganolog. Er hynny, mae fy swyddogion yn parhau i drafod y cynlluniau gyda'r Llywodraeth ac rwy'n pryderu am effaith yr alinio ar fy annibyniaeth fel rheoleiddiwr yn sgil newidiadau i drefniadau cronfeydd wrth gefn.
- 1.7 Mae'r Amcangyfrif hwn wedi ei lunio ar sail bod gan y sefydliad yr adnoddau i weithredu dyletswyddau statudol y Comisiynydd a'i gynllun strategol ac yn seiliedig ar ein hamcanion gorau ar ddiwedd Hydref 2021.

## 2 Cynlluniau'r Amcangyfrif

- 2.1 Mae'r Amcangyfrif hwn yn cyflwyno gofynion cyllido Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2022-23. Mae'r cynllun yn tybio bydd y Comisiynydd yn parhau i weithredu ar yr un lefel ag yn y blynyddoedd diweddar. Mae'r cynllun hwn yn gwneud cais am yr isafswm cyllid sydd ei angen i gyflawni strategaeth, blaenoriaethau a dyletswyddau sylfaenol y sefydliad.
- 2.2 Mae'r gofynion cyllidebu wedi eu nodi yn y tabl isod. Ceir manylion pellach am y gwariant yn adrannau 3 i 6 y ddogfen hon.

		<b>Cyllideb 2021-22 £000</b>	<b>Amcangyfrif 2022-23 £000</b>	<b>Cynnydd £000</b>
Cyllideb: Refeniw	Adran 3	3,207	3,319	112
Cyllideb: symiau nad yn arian parod (dibrisiant)	Adran 4	116	120	4
Cyllideb: Cyfalaf	Adran 5	138	154	16
Gofynion Arian Parod	Adran 6		3,472	

- 2.3 Mae'r gofynion cyllido hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan y Comisiynydd adnoddau digonol er mwyn gallu gweithredu ei ddyletswyddau statudol a'i gynllun strategol megis:
- delio gyda chwynion yn unol â gofynion y Mesur;
  - ymyrryd mewn achosion llys neu adolygiadau barnwrol;
  - gallu i weithio gyda sefydliadau i sicrhau cydymffurfiaeth a rhannu arferion da;
  - dylanwadu ar bolisi; a
  - gwireddu'r weledigaeth i hybu'r Gymraeg a chreu cyfleoedd i gynyddu defnydd.
- 2.4 Mae'r tybiaethau cynllunio cyffredinol wedi'u crynhoi ym mharagraffau 2.5 i 2.18 isod.

### Cyflogaeth

- 2.5 Er bod gan y Comisiynydd yr hawl i gyflogi 47 swyddog cywerth y pen, fel y nodwyd yn y blynyddoedd blaenorol, mae toriadau cyllido wedi gorfodi penderfyniadau anodd i beidio â llenwi pob swydd wrth i swyddogion ymadael, neu newid eu horiau gwaith. Mae'r cynllun yn tybio bydd y sefydliad yn cyflogi 42.5 swyddog cywerth y pen (heb gynnwys y Comisiynydd).
- 2.6 Mae setliad tâl 2021-22 ar gyfer cyfnod o flwyddyn wedi ei adlewyrchu, ac mae'r cynllun yn tybio setliad yn 2022-23 ar lefel cyson â'r un talwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22. Effaith hyn yw cynnydd o £50,000 i gostau cyflogaeth y sefydliad.
- 2.7 Mae trothwyon a chyfraddau pensiwn wedi'u cadw ar yr un lefel ag sydd yn daladwy ar gyfer 2021-22, ar y sail nad oes unrhyw wybodaeth swyddogol wedi ei gyhoeddi i dybio newid i'r cyfraddau.
- 2.8 Mae trothwyon yswiriant gwladol wedi'u cadw ar yr un lefel ag sydd yn daladwy ar gyfer 2021-22, ar y sail nad oes unrhyw wybodaeth swyddogol wedi ei gyhoeddi i dybio newid. Mae'r gyfradd sy'n daladwy gan y cyflogwr wedi ei gynyddu i

adlewyrchu'r cynnydd o 1.25% ar gyfer lwfans Gofal Cymdeithasol; effaith hyn yw cynnydd o £24,000 i gostau cyflogaeth y sefydliad.

- 2.9 Rydym wedi cynllunio ar sail bod unrhyw swydd cyfnod penodol neu secondiad yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod.

### Costau Gweinyddu Craidd

- 2.10 Mae'r costau hyn wedi eu hadolygu yn fanwl a lle gellir gwneud arbedion, mae'r arbedion hynny wedi eu hadlewyrchu. Noder y prif dybiaethau isod, ceir manylion pellach ym mharagraffau 3.09 i 3.26.
- 2.11 Mae effaith gweithredu IFRS 16 Lesoedd o 01/04/2022 wedi'i ymgorffori. Mae'r safon cyfrifyddu yn gofyn bod y les yn cael ei drin fel ased hawl i ddefnydd ac ymrwymiad ariannol. Bydd dibrisiant yr ased a llog ar yr ymrwymiad yn cael ei gyfrif trwy'r cyfrif incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn.
- 2.12 Yn dilyn cyngor gweision sifil adran gyllid Llywodraeth Cymru ar effaith yr alinio cyllidebol ar gyfer cyrff llywodraeth ganolog, mae cyllid digonol ar gyfer costau cyfreithiol wedi ei gynnwys. Mae hyn oherwydd nid oes modd cadw cronfa wrth gefn at y diben hwn dan y gyfundrefn newydd. Rydym yn parhau o'r farn bod dadl egwyddorol a chyfansoddiadol o blaid galluogi'r Comisiynydd gadw cronfa at ddibenion costau cyfreithiol, ond at ddibenion yr amcangyfrif hwn rydym wedi ymgorffori effaith yr alinio cyllidebol.
- 2.13 Mae effaith y rhaglen fuddsoddi ar yr isadeiledd a'r amgylchedd technoleg gwybodaeth wedi arwain at arbedion i gostau rhedeg y gwasanaethau. Mae hynny'n arwydd cadarnhaol ein bod yn llwyddo i gwrdd â nod y Llywodraeth o sicrhau arbedion tymor hir wrth fuddsoddi arian cyfalaf yn ein systemau a'n isadeiledd.
- 2.14 Prin oedd y gwariant ar deithio a chynhaliaeth yn 2020-21, ond gyda sefyllfa iechyd cyhoeddus Covid-19 yn dychwelyd i ryw lefel o normalrwydd, bydd cynnydd i gostau teithio a chynhaliaeth yn 2022-23. Er hyn, y dybiaeth yw bod profiad Covid-19 a gallu'r dechnoleg newydd yn arwain at leihad yn y gofynion teithio o ryw 60% i'w gymharu â'r cyfnod cyn Covid-19.

### Dibrisiant

- 2.15 Mae cost dibrisiant wedi ei seilio ar gynlluniau buddsoddi dros y tymor canolig. Y dybiaeth yw cwblhau'r buddsoddiad ar drawsnewid isadeiledd a gwasanaethau TG y sefydliad. Mae elfen o'r rhaglen yn cael ei weithredu yn 2021-22 gyda rhai gofynion wedi'u cynllunio yn ystod 2022-23. Bydd gofynion cyllido cyfalaf yn sgil hyn.

### Rhaglenni

- 2.16 Mae'r cyfanswm prosiectau a gynigir yn yr amcangyfrif wedi'u cyfyngu i'r rhai o natur debyg i brosiectau yr ymgwymerwyd â hwy yn 2021-22.

### Buddsoddiad y Prosiect TG

- 2.17 Mae'r cynllun wedi ei lunio ar sail cwblhau'r strategaeth TG, adeiladu systemau addas ar gyfer ail-sefydlu gwasanaethau TG i gefnogi gweithrediad y sefydliad. Mae'r gofynion hyn yn hanfodol yn sgil yr ymosodiad seibr, ond mae gallu'r sefydliad i gwblhau'r prosiect i'r amserlen wreiddiol wedi'i heffeithio gan yr ymosodiad a gofynion ychwanegol yn sgil hynny.
- 2.18 Mae'r gofynion buddsoddi ar gyfalaf wedi'u hamlinellu yn adran 5.

### 3 Amcangyfrif gwariant refeniw a sylwadau

3.1 Cyflwynir isod fanylion o wariant Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyd at 2023-24. Er mwyn ariannu'r gweithgareddau sydd yn hanfodol bwysig i strategaeth, blaenoriaethau a gweithrediad effeithiol y sefydliad, gwneir cais am gyllid refeniw o £3,319,000. Gweler adran 4 ar gyfer ar gyfer symiau nad yn arian parod (dibrisiant), ac adran 5 ar gyfer gofynion cyllido cyfalaf.

	Gwariant 2020-21 £000	Cyllideb 2021-22 £000	Rhagolwg 2021-22 £000	Amcangyfrif 2022-23 £000	Cynllun 2023-24 £000
Cyflogau	2,412	2,445	2,481	2,564	2,618
<i>Rhent swyddfeydd</i>	119	119	119	-	-
<i>Costau cynnal swyddfeydd</i>	118	139	139	140	141
<i>Cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol</i>	124	132	91	120	140
<i>Costau proffesiynol arall</i>	70	76	83	74	74
<i>Technoleg gwybodaeth</i>	158	107	113	95	94
<i>Costau gwasanaethau a gweinyddu</i>	36	29	29	32	31
<i>Recriwtio, dysgu a datblygu</i>	23	35	35	41	39
<i>Teithio a chynhaliadau</i>	2	11	11	33	33
Costau Craidd	650	648	620	535	552
Dibrisiant a llog ar lesioedd swyddfa (IFRS16)	-	-	-	122	111
Rhaglenni	58	84	82	98	84
<b>CYLLIDEB REFENIW NET</b>	<b>3,120</b>	<b>3,177</b>	<b>3,183</b>	<b>3,319</b>	<b>3,365</b>

3.2 Ystyrir effaith y ffactorau mwyaf dylanwadol ar wariant y Comisiynydd isod:

## Cyflogau

- 3.3 Mae'r strwythur presennol y sefydliad hwn yn cynnwys 47 swydd, fel y'u cytunwyd gan Weinidogion Cymru, ac yn strwythur sydd yn addas ar gyfer ymateb i swyddogaethau'r Comisiynydd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 3.4 Mae staff y Comisiynydd yn cael eu talu yn unol ag amodau a thelerau Llywodraeth Cymru, ac mae'r amcangyfrif wedi ei baratoi ar sail bod hyn yn parhau.
- 3.5 Wedi 3 mlynedd o doriadau i gyllideb y sefydliad hyd 2016-17 a ddilynwyd gan 3 mlynedd o gyllidebau sefydlog hyd y flwyddyn ac yn cynnwys 2018-19, lle gwelwyd lleihad i nifer y staff oedd hi'n fforddiadwy i'w cyflogi.
- 3.6 Derbyniwyd cyllideb refeniw ar gyfer 2021-22 ar lefel cyson â'r flwyddyn flaenorol, sef £3,207,000. Roedd setliad tâl diweddar Llywodraeth Cymru ar gyfer un flwyddyn hyd 31/03/2022, a'r effaith ar y sefydliad oedd cynnydd i gostau cyflogaeth o tua £50,000. Ni ddyrannwyd cyllideb ychwanegol ar gyfer y setliad tâl, roedd rhaid amsugno'r costau hyn o fewn y gyllideb a ddyrannwyd. Yn dilyn cyhoeddiad Canghellor y Trysorlys, y dybiaeth yw bydd y setliad tâl y blynyddoedd dilynol yn geidwadol ac yn gyson â'r setliad tâl ar gyfer 2021-22. Er mwyn ariannu'r setliad tâl mae angen cyllid ychwanegol o £50,000 ar gyfer 2022-23.
- 3.7 Bu cyhoeddiad yn y misoedd diweddar gan Lywodraeth y DU y byddai cynnydd i gyfraddau yswiriant gwladol ar gyfer ariannu costau gofal cymdeithasol. Bydd y cyfraniadau ychwanegol o 1.25% yn achosi cynnydd o £24,000 y flwyddyn i gostau cyflogaeth, ac mae'r Amcangyfrif yn cynnwys cais am gyllid ychwanegol.
- 3.8 Os na fydd cyllid ychwanegol ar gael, a gyda chostau cyflogaeth yn cynrychioli 77% o wariant refeniw y sefydliad, bydd yn anorfod gwneud penderfyniad i beidio â llenwi cywerth â dwy swydd llawn amser ar lefel swyddog er mwyn peidio â gorwario.

## Swyddfeydd

- 3.9 Ar gyfer 2022-23 mae safonau cyfrifyddu yn newid triniaeth lesioedd y swyddfa fel nad yw'r rhent yn cael ei drin fel cost weithredol. Yn hytrach bydd gwerth y les yn cael ei ddibrisio dros y cyfnod ceir gwerth economaidd o'r les. Effaith y newid i'r safon cyfrifyddu yw cynnydd o £3,000 i gostau refeniw ar gyfer y flwyddyn.
- 3.10 Mae'r costau eraill cynnal y swyddfeydd yn cynnwys ymrwymadau cytundebol megis gwasanaethau landlord, treth annomestig a gwasanaethau cyfleusterau swyddfa. Crynhoir y costau blynyddol a chyfnodau lesioedd fesul swyddfa isod:

	Caerdydd £000	Caernarfon £000	Caerfyrddin £000	Rhuthun £000
Rhent	70	32	12	5
Gwasanaethau Landlord	23	16	4	0
Costau Eraill	53	32	8	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>146</b>	<b>80</b>	<b>24</b>	<b>8</b>
Sylwadau	toriad les 20/12/2023	terfyn les 23/03/2028	terfyn les 05/09/2023	cyfnod rybudd 6 mis

- 3.11 Mae'r cyfnod clo oherwydd Covid-19 wedi achosi newid i ddulliau gweithio, gyda'r staff yn gweithio o'u cartrefi dros y deunaw mis diwethaf. Mae disgwyliad y bydd y patrwm hwn yn parhau yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, er bod cynlluniau yn cael eu datblygu i alluogi staff i ddychwelyd i'r swyddfeydd.



- 3.12 Y disgwyl yw bod profiad cyfnod Covid-19, dyheadau staff a gofynion busnes y sefydliad yn arwain at batrymau gweithio fwy hyblyg yn y dyfodol. Mae'r buddsoddiad mewn technoleg a dulliau amgen o weithio yn debygol o ganiatáu elfen o weithio hyblyg o swyddfeydd, cartref neu leoliadau eraill. Traweffaith hyn yw bydd gofynion swyddfeydd y sefydliad yn dra gwahanol i'r ddarpariaeth sydd gan y sefydliad ar hyn o bryd.
- 3.13 Oherwydd nid oes modd cyfreithiol i ildio'r lesioedd yn gynt na'r cyfnodau sydd wedi eu nodi uchod heb dâl cosb, nid oes newid wedi ei gynllunio ar gyfer gwariant 2022-23. Bydd ystyriaeth o'r gofynion hyn dros y ddwy flynedd nesaf yn hanfodol, wrth i gyfnodau'r lesioedd ddod i ben. Byddai'r Comisiynydd yn croesawu unrhyw gymorth ariannol neu ymarferol gan Lywodraeth Cymru o ran ildio neu osod y lesioedd.

### Technoleg Gwybodaeth

- 3.14 Datblygodd y Comisiynydd strategaeth TG gyda gweledigaeth o trawsnewidiad technoleg yn canolbwyntio ar y ffordd byddai'r mae'r sefydliad yn cyflawni ei amcanion busnes yn effeithiol ac yn gwella'r ffordd byddai'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn rhyngweithio â'r sefydliad. Yn ogystal â newid i ddulliau gweithio, bydd cyflawni'r strategaeth TG yn arwain at amgylchedd TG sy'n rhatach i'w gynnal.
- 3.15 Derbyniodd y Comisiynydd £277,000 o arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i drawsnewid TG a moderneiddio ei isadeiledd, offer a meddalwedd defnyddwyr yn ystod 2020-21. Yn ychwanegol mae cyllid cyfalaf o £138,000 wedi ei ddyrannu ar gyfer 2021-22.
- 3.16 Ym mis Rhagfyr 2020 cafwyd ymosodiad seibr difrifol ar holl amgylchedd, systemau a gwasanaethau TG y sefydliad. Yn sgil yr ymosodiad aethpwyd ati i greu isadeiledd ac amgylchedd o'r newydd yn unol â'r Strategaeth TG. Mae'r gwaith wedi bod yn parhau dros y 10 mis diwethaf ac mae isadeiledd a gwasanaethau TG craidd wedi'u sefydlu.
- 3.17 Yn sgil y newid i'r isadeiledd, amgylchedd a gwasanaethau, mae arbedion sylweddol i gostau rhedeg gwasanaethau TG y sefydliad wedi'u hadnabod a'u gweithredu, drwy derfynu cytundebau a negodi cytundebau newydd. Mae'r cynllun hwn yn tybio bydd cost cynnal gwasanaethau TG y sefydliad ar gyfer 2022-23 yn £95,000. Mae hyn yn arbediad o tua £60,000, sef arbediad o 40% i'w gymharu â chostau blaenorol y gwasanaethau.
- 3.18 Mae'n holl bwysig nodi y collwyd nifer o adnoddau (systemau) craidd y sefydliad o ganlyniad i'r ymosodiad. Roedd y rhain yn cynnwys y systemau canlynol:
- Gwefan
  - Systemau corfforaethol y Gyflogres a Chyfrifyddu
  - System Rheoli Gwybodaeth (SGwNI)
  - Cronfa Enwau Lleoedd
- 3.19 Tra bod gwefan newydd wedi'i hadeiladu a bod systemau corfforaethol newydd wedi'u sefydlu mae dal angen sefydlu gwasanaethau ar gyfer Rheoli Gwybodaeth ac Achosion a Chronfa Enwau Lleoedd. Mae gwybodaeth bellach mewn perthynas â gofynion cyllido y systemau hyn wedi ei fanylu yn adran 5.

## Cyfreithiol a phroffesiynol

3.20 Mae costau ar gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol yn gallu amrywio yn sylweddol ac mae'n anodd rhagdybio'n llawn yr amgylchiadau lle bo angen am gyngor neu gynrychiolaeth. Mae rhai blynyddoedd wedi bod lle mae'r gwariant wedi bod yn isel, ond roedd gwir wariant 2020-21 yn £124,000 ac mae'r rhagolwg gwariant ar gyfer 2021-22 yn tybio gwariant o tua £91,000 erbyn diwedd y flwyddyn.

3.21 Fel nodwyd uchod ym mharagraff 2.12, yn sgil alinio cyllidebol cyrff llywodraeth ganolog, nid oes modd cadw cronfa wrth gefn at ddibenion achosion allai godi. Ar gyngor gweision sifil adran gyllid Llywodraeth Cymru mae'r cynllun hwn yn cynnwys lefel cyllido rhesymol a digonol ar gyfer cyngor cyfreithiol a chostau cynrychiolaeth.

3.22 Y disgwyl yw bydd lefel costau cyfreithiol dros y tymor canolig yn parhau tua £120,000 y flwyddyn. Y ffactorau sydd yn dylanwadu ar hyn yw:

- Cynnydd yn nifer y sefydliadau sydd yn gweithredu dan gyfundrefn safonau. Felly mae disgwyl bydd mwy o achosion yn mynd ger bron y Tribiwnlys, ac mae'n bwysig o ran cyfiawnder a chryfhau hawliau iaith bod gallu gan defnyddwyr i wneud hyn heb rwystr.
- Hawl y Comisiynydd i arfer ei ddisgresiwn wrth benderfynu a ddylai ymchwilio i gwynion; hynny'n arwain at heriau i benderfyniadau'r Comisiynydd. Bydd penderfyniadau'r Tribiwnlys yn gosod cynsail i briodoldeb ai peidio o'r penderfyniadau hynny. Nes bydd y cynsail hynny wedi gwreiddio yn nisgwyliadau'r cyhoedd bydd parhad i'r heriau hyn dros y tymor canolig.
- Lle bo achosion pwysig yn codi, mae penderfyniad y Comisiynydd i ymyrryd mewn achosion o'r fath yn holl bwysig er mwyn buddsoddi yng nghryfder y Gymraeg drwy greu cynsail cyfreithiol.

3.23 O ran y costau proffesiynol arall, mae'r gwariant ar rain yn sefydlog ac yn adlewyrchu gofynion y sefydliad. Gellir dadansoddi'r gwariant fel a ganlyn:

○ Archwilio Cymru (statudol)	£15,000
○ Archwilio mewnol	£15,000
○ Cyfieithu a phrawf ddarllen	£33,000
○ Yswiriant sefydliadol	£9,000
○ Ymgynghorwyr	£3,000

## Teithio a Chynhaliaeth

3.24 Mae cyfnod clo COVID-19 wedi achosi cyfyngiadau teithio llym ar staff y sefydliad. Oherwydd hyn, prin oedd y gwariant yn 2020-21 ac mae rhagolwg gwariant 2021-22 yn tybio gwariant o £11,000, sef arbediad o 86% i gostau ar deithio a chynhaliaeth. Mae'r cyfnod yma wedi gorfodi staff i ystyried dulliau amgen i gysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r profiad wedi dangos bod modd cynnal perthynas a chyswllt yr un mor effeithiol drwy'r dulliau rhithiol â chyswllt wyneb yn wyneb.

3.25 Oherwydd hyn, y dybiaeth yw ni fydd dychwelyd i gynnal cyswllt wyneb yn wyneb heblaw am amgylchiadau lle bo'n angenrheidiol, neu'n fwy effeithiol. Bydd hyn yn ddefnydd mwy effeithiol o amser staff a hefyd y disgwyl yw bydd costau blynyddol tua £33,000, sef arbediad o tua 60% i'w gymharu a'r cyfnod cyn COVID-19.

## Costau gweinyddu eraill

3.26 Mae'r costau gweinyddu eraill yn cynnwys gwariant ar recriwtio, hyfforddiant, cyfathrebu, llungopio ac argraffu, gwasanaethau cyflogau chostau post a dosbarthu. Mae'r Comisiynydd yn dilyn arfer da fel y rhai a hyrwyddir gan Gwerth Cymru. Mae'r egwyddor o gael gwerth am arian, ar sail holl gostau gydol oes ac ansawdd o'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynwyd, yn cael ei ddilyn bob amser.

## Rhaglenni

3.27 Cynllunnir gwariant rhaglenni o £98,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Mae'r lefel gwariant yn eithaf cyson â'r lefelau gwariant cynlluniwyd ar eu cyfer yn y blynyddoedd diweddar. Mae'r rhaglenni hyn wedi'u cyfyngu i'r rhai o natur debyg i brosiectau yr ymgymeryd â hwy yn y blynyddoedd hyn. Nid oes cyfle i gwtogi ar y gwariant heb hepgor unrhyw waith ymchwil, gwaith dadansoddol annibynnol, neu ymgyrchoedd.

## Incwm

3.28 Nid oes disgwyl i'r Comisiynydd dderbyn incwm o unrhyw ffynhonnell arall heblaw gan Weinidogion Cymru.

3.29 Gyda newid i'r gyfundrefn alinio cyllidebol cyrff llywodraeth ganolog, cydnabyddir bydd y Comisiynydd yn gwneud cais am arian parod yn unol ag amseriad y gofyn. Hefyd cydnabyddir y bydd angen i'r Comisiynydd ad-dalu i Lywodraeth Cymru unrhyw log derbynadwy llai unrhyw log a chostau bancio taladwy.

3.30 Derbynnir ychydig o log banc ar yr arian wrth ei fuddsoddi mewn cyfrifon cadw banc masnachol. Ni ddisgwylir i'r symiau fod yn faterol berthnasol, a noder bu cost net o £255 i'r sefydliad ar gyfer 2020-21.

## 4 Dibrisiant

4.1 Derbyniwyd cyllideb ar gyfer dibrisiant ar asedau sefydlog ar gyfer 2021-22 o £116,000. Roedd disgwyl i gostau dibrisiant gynyddu'r sylweddol yn sgil y buddsoddiad yn isadeiledd, a gwasanaethau TG y sefydliad.

4.2 Oherwydd ffactorau megis oedi i amseriad y buddsoddiad a gwahaniaeth yn y driniaeth ar gyfer 'Cyllidebu Llywodraeth' a safonau cyfrifyddu, roedd yr ychwanegiadau i asedau sefydlog yn llai na'r hyn roedd wedi ei gynnwys yn yr Amcangyfrif blaenorol. Traweffaith hyn yw rhagolwg cost dibrisiant ar gyfer 2021-22 o £65,000, sef tanwariant o £51,000.

4.3 Mae'r cynlluniau buddsoddi ar systemau technoleg yn 2021-22 a 2022-23 sydd wedi eu nodi yn adran 5 yn arwain at gostau dibrisiant ac amorteiddio o £120,000 yn 2022-23. Mae'r cynnydd i'w gymharu â'r blynyddoedd blaenorol yn ganlyniad uniongyrchol i'r buddsoddiad yn y systemau TG.

## 5 Buddsoddi ar Gyfalaf

- 5.1 Yn dilyn cyflwyno ei Strategaeth TG i Lywodraeth Cymru cafodd cyllid cyfalaf o £385,000 ei ddyrannu gan y Llywodraeth Cymru, fel arian untro ar gyfer buddsoddi yn isadeiledd, offer a meddalwedd TG y sefydliad. Derbyniwyd £277,000 o'r arian yn ystod 2020-21, a dyrannwyd y gweddill, sef £108,000 ynghyd â chais am £30,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22.
- 5.2 Fel y nodwyd ym mharagraffau 3.14 i 3.19 mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni er mwyn ail sefydlu isadeiledd a gwasanaethau TG y sefydliad ers yr ymosodiad seibr, ynghyd â gweithredu'r strategaeth TG. Mae colled yr holl systemau a gwasanaethau wedi bod yn heriol ac wedi cael effaith ar allu'r sefydliad i weithredu yn unol â'r cynlluniau a'r amserlen wreiddiol.

- 5.3 Mae'r tabl isod yn amlinellu prif elfennau'r gofynion gwariant ar gyfalaf:

	<b>Rhagolwg 2021-22 £000</b>	<b>Amcangyfrif 2022-23 £000</b>
Uwchraddio rhwydweithiau swyddfeydd	35	-
System Rheoli Achosion a Data	102	97
Gwefan	31	-
Adnoddau a Holiadur Hybu	27	-
Cronfa Enwau Lleoedd	-	25
Seibr Ddiogelwch	4	20
Partner gweithredu a rheoli prosiect	57	12
<b>Cyfanswm gofynion cyfalaf</b>	<b>256</b>	<b>154</b>
Cyllideb dyrannwyd gan Lywodraeth Cymru	138	
<b>Gorwariant</b> yn erbyn y gyllideb	<b>-118</b>	

- 5.4 Gweler o'r tabl uchod bod elfennau hanfodol o ddatblygiadau TG angen eu hail sefydlu trwy adeiladu systemau ac adnoddau TG o'r newydd yn dilyn yr ymosodiad seibr. Heb fod yr elfennau hyn yn cael eu rhoi ar waith ni fydd modd i'r sefydliad weithredu'i ddyletswyddau'n effeithiol.
- 5.5 Gweler o'r tabl bod angen £118,000 ychwanegol o gyllideb cyfalaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol (2021-22). Y bwriad y gwneud defnydd o'r arian parod yn y banc ar gyfer cynnal y gwaith, ond bydd angen sicrhau cytundeb i gyllideb cyfalaf digonol. Byddwn yn gwneud cais i isadran y Gymraeg am hynny gan ddilyn y drefn arferol.
- 5.6 Mae gweithredu nifer o elfennau'r prosiect TG yn rhoi gofynion ychwanegol ar adnoddau staff y sefydliad wrth iddynt gydweithio gyda'r partner ar weithredu'r prosiect. Oherwydd hyn daethpwyd i'r casgliad byddai'r gwaith ar y system rheoli achosion a data yn pontio 2 flynedd. Hefyd bydd angen oedi cyflawni'r gwaith ar y Gronfa Enwau lleoedd hyd 2022-23. Yn olaf mae swm wedi ei ddynodi ar gyfer seibr ddiogelwch er mwyn gweithredu gwelliannau yn sgil adroddiadau archwilio mewnol.
- 5.7 Gwneir cais am gyllideb cyfalaf o £154,000 ar gyfer 2022-23 er mwyn cyflawni'r elfennau hyn.

## 6 Gofynion arian parod

- 6.1 Mae egwyddorion y gyfundrefn alinio cyllidebol cyrff llywodraeth ganolog yn nodi:
- Dylai sefydliad wneud cais am arian parod ar sail amseriad gwariant y sefydliad, yn arferol bob chwarter;
  - Ni ddylai sefydliad gadw mwy na 5% o'r gofynion ariannol ar ddiwedd unrhyw chwarter;
  - Mae gwneud ceisiadau am arian parod tu hwnt i'r gofyn, neu gadw arian parod gormodol mewn cyfrifon banc masnachol yn cynyddu Gofyniad Benthycar Sector Cyhoeddus (PSBR) a hefyd y llog sy'n daladwy arno, ac yn ddefnydd aneffeithiol o arian y trethdalwr.
- 6.2 Roedd cyfrifon blynyddol 2020-21 yn datgan mantolen fel nodir ym mharagraff 6.3 isod. Mae'r fantolen yn dangos bod £994,000 o arian parod mewn cyfrif banc masnachol ar 31/03/2021. Nid yw cadw swm tebyg yn dilyn yr egwyddorion ym mharagraff 6.1 uchod. Mae gofyn bod y Comisiynydd yn ystyried ei anghenion arian parod yn unol â'r egwyddorion uchod, a lleihau lefel yr arian cedwir mewn cyfrif banc masnachol o fewn y trothwy o 5%.
- 6.3 Ar sail y rhagolygon gwariant ar gyfer 2021-22 a'r cynlluniau gwariant ar gyfer 2022-23 sydd wedi'u hamlinellu yn adrannau 3, 4 a 5 o'r ddogfen hon amlinellir y gofynion arian parod ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyn yn y tablau isod. Yn gyntaf bydd y Comisiynydd yn sicrhau bod balans yr arian parod wedi gostwng i'r trothwy o 5% ar ddiwedd 2021-22.

<b>Gofynion 2021-22</b>	<b>Mantolen 31/03/21 £000</b>	<b>Gwariant Refeniw £000</b>	<b>Gwarian Cyfalaf £000</b>	<b>Dibrisiant Asedau £000</b>	<b>Newid i Groniadau £000</b>	<b>Gofynion Arian £000</b>	<b>Balans 31/03/22 £000</b>
Asedau sefydlog	232		195	-65			362
Rhagdaliadau	51						51
Arian parod	994	-3,183	-256			2,617	172
Taliadau masnachol	-51						-51
Croniadau	-304				50		-254
Credydwy'r eraill	-45						-45
Darpariaethau	-180						-180
<b>Ecwiti'r Trethdalwr</b>	<b>697</b>	<b>-3,183</b>	<b>-61</b>	<b>-65</b>	<b>50</b>	<b>2,617</b>	<b>55</b>

- 6.4 Gofynion ariannol y flwyddyn yw £3,183,000 ar wariant refeniw a £256,000 ar gyfalaf, sef cyfanswm o £3,439,000. Gall y Comisiynydd gadw hyd at 5% o'r gofyniad blynyddol yn y cyfrif banc ar ddiwedd y flwyddyn, sef £172,000. Gan fod £994,000 yn y cyfrif banc ar ddechrau'r flwyddyn, £2,617,000 bydd cyfanswm yr arian parod caiff ei dynnu lawr ar gyfer 2021-22.

6.5 Ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol, mae'r Amcangyfrif hwn yn berthnasol iddi, gellir crynhoi'r gofynion arian parod fel a ganlyn:

<b>Gofynion 2022-23</b>	<b>Mantolen 31/03/22 £000</b>	<b>Gwariant Refeniw £000</b>	<b>Gwarian Cyfalaf £000</b>	<b>Dibrisiant Asedau £000</b>	<b>Effaith IFRS16 £000</b>	<b>Gofynion Arian £000</b>	<b>Balans 31/03/23 £000</b>
Asedau sefydlog	362		142	-120			384
Asedau hawl defnydd	0				551		551
Rhagdaliadau	51						51
Arian parod	172	-3,319	-154		3	3,472	174
Taliadau masnachol	-51						-51
Croniadau	-254						-254
Ymrwymiad lesioedd	0				-554		-554
Credydwy'r eraill	-45						-45
Darpariaethau	-180						-180
<b>Ecwiti'r Trethdalwr</b>	<b>55</b>	<b>-3,319</b>	<b>-12</b>	<b>-120</b>	<b>0</b>	<b>3,503</b>	<b>76</b>

6.6 Gofynion ariannol y flwyddyn yw £3,319,000 ar wariant refeniw, £154,000 ar gyfalaf, llai £3,000 ar gyfer taliadau ymrwymiadau lesioedd y swyddfeydd; sef cyfanswm o £3,470,000. Gall y Comisiynydd gadw hyd at 5% o'r gofyniad yn y cyfrif banc ar ddiwedd y flwyddyn, sef £174,000. Gyda £172,000 yn y cyfrif banc ar ddechrau'r flwyddyn, mae'r Amcangyfrif hwn yn cynllunio mai £3,472,000 bydd cyfanswm yr arian parod caiff ei dynnu lawr ar gyfer 2022-23.